# Cyflwyno gwybodaeth

Mae ysgrifennu adroddiad o safon yn anodd weithiau ac yn aml yn gallu achosi straen.

Ond dyna’r peth olaf rwyt ti eisiau. Bydd hi’n amhosibl gorffen dy broject, ac aiff dy wallt i edrych fel un bwgan brain.

Dyna i gyd sydd ei angen yw pen clir, a ffordd effeithiol o gyflwyno'r cynnwys.

Dywed dy fod ti’n ysgrifennu am fanteision bwyta'n iach. Wel, dechreua gyda gwaith ymchwil er mwyn hel digon o ddeunydd i lunio dadl.

Nesaf, bydd angen rhoi trefn ar yr holl wybodaeth ar ffurf sy’n hawdd i’w deall.

Mae’n swnio fel tipyn o waith, ond dyw rhoi strwythur clir i ddarn o waith ddim yn anodd.

Dechreua gyda chyflwyniad sy’n crynhoi'r cynnwys ac yn egluro pa drywydd fyddi di’n ei ddilyn.

Yna, mae angen cyflwyno’r ffeithiau a datblygu dy syniadau yn glir cyn cloi gyda chasgliad cryf.

Er mwyn creu argraff dda a chyflwyno dy waith mewn ffordd effeithiol, meddylia’n ofalus am sut fydd dy adroddiad di'n edrych.

Yn aml, dyw geiriau’n unig ddim yn ddigon i greu adroddiad trawiadol. Dychmyga dy hun yn olygydd cylchgrawn neu wefan - sut fyddet ti’n denu sylw dy ddarllenwyr di?

Mae lluniau’n ffordd wych o egluro dy themâu, ac mae 'na fwy na digon i’w cael ar-lein wrth gwrs. Ond gwna’n siŵr eu bod yn berthnasol.

Rydyn ni i gyd yn hoffi gwylio cathod yn gwneud pethe dwl, ond ai project am gathod yn gwneud pethe dwl wyt ti'n ei ysgrifennu?

Does neb eisiau ysgrifennu adroddiad sych ac anodd i'w ddeall. Drwy gyflwyno ystadegau mewn ffordd ddeniadol, er enghraifft mewn tabl neu graff, bydd y wybodaeth yn glir ac yn haws i'w darllen.

Mae graff bar yn ffordd weledol o gymharu gwahanol fathau o ddata.

Ac mae graff llinell, gyda phob ffigwr yn cael ei gynrychioli gan ddot, yn dangos newidiadau dros gyfnod o amser.

A beth am siart gylch? Mae'n ffordd ddefnyddiol iawn o ddosrannu data.


© Hawlfraint BBC

Paid â glynu at luniau a graffiau yn unig. Beth am ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol? Ond dim ond os ydyn nhw'n berthnasol, wrth gwrs.

Mae'n bosibl denu pobl yn hawdd drwy gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd glir, a gwneud i dy waith edrych yn ddeniadol, a hynny heb fynd i edrych fel bwgan brain.


© Hawlfraint BBC